
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales


Gethin Ceidiog Hughes


Lea Sautin



Rhi Moxon


Susan Milne

# Gwobr Goffa Eirian Llwyd

## Canllawiau

Ebrill 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Hygyrchedd 2

1. Beth yw ei nod? 3
2. Am beth y bydd yn talu? 3
3. Pwy sy'n gallu enwebu? 3
4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd? 3
5. Beth yw'r meini prawf asesu? 4
6. Sut y penderfynwn? 4
7. Deunydd enwebu 4
8. Sut i ymgeisio 4
9. Angen cysylltu? 5


## Hygyrchedd

Rydym ni'n darparu gwybodaeth mewn print bras, braille, sain, hawdd ei deall ac Arwyddeg. Ceisiwn hefyd gynnig gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd ac rydych chi'n meddwl ymgeisio, gallwn eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni: [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru) i drafod sut.

Rydym ni'n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Gwobr Goffa Eirian Llwyd

## 1. Beth yw ei nod?

Roedd Eirian Llwyd yn creu printiau nodedig iawn. Hi oedd sylfaenydd Y Lle Print Gwreiddiol. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Goffa yn ei henw i gynnig gwobrau ariannol i artistiaid newydd a rhai sy’n dod i’r golwg yng Nghymru sy'n gwneud printiau.

Gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth, hoffem gynnig gwobr i un artist bob blwyddyn a gaiff hyd at £2,500.

Caiff curaduron oriel a chanolfannau argraffu yng Nghymru y cyfle i enwebu artist printiau ymroddgar a thalentog a fyddai’n elwa o’r cyfle.

Croesawn yn arbennig enwebu gwneuthurwyr printiau o gefndiroedd a dangynrychiolir. Gall hyn olygu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd oherwydd eu rhywioldeb, eu hethnigrwydd, eu cefndir cymdeithasol ac economaidd neu eu hanabledd.

## 2. Am beth y bydd yn talu?

Bwriad yr arian yw galluogi'r artist i ddatblygu a pharhau â gwneud printiau, er enghraifft: prynu offer creu printiau, cynnal sioe unigol, preswyliad printiau neu fentora gan rywun mwy profiadol.

## 3. Pwy sy'n gallu enwebu?

Curadur oriel neu ganolfan argraffu yng Nghymru sy'n cynnig aelodaeth ac yn darparu cyfleusterau creu printiau i artistiaid yng Nghymru.

Gall oriel neu ganolfan argraffu enwebu hyd at ddau artist.

## 4. Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?

Rhaid i'r artist enwebedig fod:

- yn artist sy’n byw yng Nghymru
- wrthi’n sefydlu eu hymarfer creu printiau neu’n artist a ddechreuodd arbrofi yn y maes
- yn ymrwymedig i barhau â'i ymarfer yng Nghymru

## 5. Beth yw'r meini prawf asesu?

- ystiolaeth o dalent yr artist yn ei faes
- Ymroddiad yr artist i greu printiau yn ei ymarfer presennol
- Ymrwymiad yr artist i barhau â'i ymarfer yng Nghymru

## 6. Sut y penderfynwn?

Dryw banel dethol sy'n cynnwys un o'n Rheolwyr Portffolio a'n Swyddogion Datblygu a Chydweithiwr sydd ag arbenigedd yn y celfyddydau gweledol gan gynnwys printiau.

Byddwn yn hysbysu'r holl enwebeion a'r artist llwyddiannus.

## 7. Deunydd enwebu

Rhaid darparu tystiolaeth o waith yr artist gan gynnwys:

- enw a chyfeiriad e-bost yr artist
- datganiad (500 gair ar y mwyaf) i esbonio eich rhesymau dros enwebu
- CV a Datganiad Artist
- 6-8 llun o'i waith diweddar neu 5 munud o ffilm/perfformiad. Os oes dolenni â chyfrinair, rhowch wybod inni am y cyfrinair

Rhowch y cyfan mewn ffeil (Word neu pdf). Ni ddylai'r ffont fod yn llai na 12 pwynt na'r ffeil yn fwy na 250MB.

## 8. Sut i ymgeisio

E-bostiwch ni gan atodi'r wybodaeth angenrheidiol (gweler adran 7).

Mae ein cyfeiriad e-bost a gwybodaeth bellach ar ein gwefan: [https://celf.cymru/cy/ariannu/gwneud-cais](https://celf.cymru/cy/ariannu/gwneud-cais) - cliciwch ar Unigolion a dewiswch Wobr Goffa Eirian Llwyd.

## 9. Angen cysylltu?

I gael rhagor o gyngor neu gymorth gyda phroblemau technegol, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth: grantiau@celf.cymru neu:

Ffôn: 03301 242733 (ar gyfraddau lleol)

9am-5pm ddydd Llun-ddydd Iau

9am-4.30pm ddydd Gwener

Trydar: @Celf_Cymru

Instagram: @celfcymruarts

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Gwefan: http://www.celf.cymru